

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#GwasanaethauCyhoeddus

Adroddiad Blynyddol 2016-17



Cewch ragor o wybodaeth amdanom ni, am y gwaith rydyn ni'n ei wneud,
gyda phwy rydyn ni'n gweithio ac am ein gwerthoedd ar ein gwefan:

llyw.cymru/academiwales

Cynnwys

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol 2016-17. Mae wedi'i ysgrifennu fel llinell amser, sy'n tynnu sylw at ein prif gyflawniadau yn ystod pob cyfnod o dri mis.

Ebrill i Fehefin 2016	4
Gorffennaf i Fedi 2016	6
Hydref i Ragfyr 2016	8
Ionawr i Fawrth 2017	10

Ebrill i Fehefin 2016



Trosolwg gan Jo

Mae'r gwanwyn yn dynodi cychwyn newydd, a dechreuodd ein blwyddyn adrodd gyda bwrlwm gweithgareddau a syniadau newydd yn blodeuo wrth i ni gwblhau ein cynlluniau busnes ar gyfer y 12 mis nesaf. Un o'n cryfderau fel tîm yw'n gallu i weithio gyda'n gilydd, ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y daeth pawb at ei gilydd i wneud yr Ysgol Haf yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn o ran y dysgu.

Ysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2016

Arwain gyda Bwriad, Brwdfrydedd a Dyfalbarhad

'Wythnos wnaeth brocio'r meddwl. Fe wnaeth ddatblygu a chefnogi rhai o'm meddyliau - a newid eraill yn llwyr!'

- Cynadleddwr, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2016, bu i ni ddatlu 11eg pen-blwydd ein rhaglen ddysgu preswyl pum niwrnod.

Defnyddiwyd dull dysgu cyfunol yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys siaradwyr ysbrydoledig, gweithdai ymarferol a choetsio un-i-un. Roedd y dysgu'n cael ei atgyfnerthu yn y sesiynau myfyrio a oedd yn cael eu hwyluso bob dydd.

Daeth arbenigwyr ac arweinwyr syniadau o bob cwr o'r byd i rannu'r syniadau, yr ymchwil a'r enghreifftiau diweddaraf o ddefnyddio theorïau a modelau mewn sefyllfaoedd go iawn. Llwyddodd yr wythnos i herio rhagdybiaethau, i dywys pobl i feddwl am eu gallu negyddol ac i ddatblygu rhwydweithiau sydd wedi para ymhell y tu hwnt i'r digwyddiad.



Penawdau

- 195 cynadleddwr yn cynrychioli 61 o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru
- 10 siaradwr gwadd - gan gynnwys academyddion o Brifysgol Harvard ac Ysgol Fusnes Bangor
- 12 gweithdy, 18 grŵp wedi'i hwyluso a 7 coetsiwr gweithredol
- Opsiwn i gael achrediad tuag at gymhwyster ôl-radd

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol

Roeddem wedi cefnogi rhaglen newydd Cyngor Sir Gaerfyrddin, Arweinwyr y Dyfodol, drwy ddarparu gweithdy tri diwrnod pwrpasol, sef 'Archwilio a Cherdded'. Roedd hyn yn caniatáu iddynt fyfyrio ar y dysgu ffurfiol ac ystyried y nodweddion unigryw yr oedden nhw'i gyd yn eu defnyddio yn eu harferion arweinyddiaeth. Maent hefyd wedi meithrin perthnasoedd o gyd-gymorth yn seiliedig ar ymddiriedaeth o fewn y grŵp.

Yn 2016-17, mae ein Tîm Arwain a Datblygu Sefydliadol wedi darparu dros 130 rhaglen, gan gynnwys 90 o ddigwyddiadau pwrpasol, ac roedd cyfanswm o 6812 o gynadleddwyr yn bresennol!

Gwobrau Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

Enillwyr

- Gwelliant Parhaus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABCi) - Gwobr Arweinyddiaeth
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Gwobr Gwerth Cyhoeddus a Gwobr Cydweithio
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Gwobr Arloesedd
- Tanya Strange, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Cyfraniad Eithriadol i Welliant Parhaus



Nigel Owens yn cyflwyno ei gwobr i Tanya Strange

Lansiwyd dau rifyn newydd o'n cyhoeddiadau poblogaidd, Hau Hadau. Roedd y ddau'n archwilio gwahanol agweddau ar welliant parhaus:

- Methodolegau a theorïau
- Modelau a dulliau

Dewch o hyd iddynt o dan 'Adnoddau Dysgu' ar ein gwefan.

Lansio'r wefan newydd

llyw.cymru/academiwales

Rydym wedi cyfuno nifer o'n gwefannau presennol i greu un safle newydd sbon, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel ein hunig ffynhonnell ar-lein ar gyfer digwyddiadau, cyrsiau, adnoddau dysgu, newyddion a blogiau.

Defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu profiadau gwell ac roedd y dyluniad wedi'i optimeiddio i'w weld ar ffonau symudol ac ar ddyfeisiau tabled.

Penawdau

- Aelodaeth am ddim i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
- Cynnwys unigryw a rhwydweithiau i aelodau
- Dros 180,000 o bobl wedi ymweld â'r dudalen ers y lansiad
- 772 o aelodau newydd wedi cofrestru

Codi arian i Shelter Cymru

Roeddem wedi ymuno â brwydr Shelter Cymru yn erbyn tai gwael a digartrefedd drwy gefnogi eu gweledigaeth, sef sicrhau tŷ gweddus a diogel i bawb yng Nghymru.

Roedd gennym dîm yn cymryd rhan yn y digwyddiad Gung Ho! - cafodd yr hwyl a'r sbri ei anfarwoli mewn fideo a gafodd ei chwarae yn yr Ysgol Haf er mwyn codi arian at yr achos.




Gorffennaf i Fedi 2016



Trosolwg gan Jo

Mae misoedd yr haf fel arfer yn gyfnod distawach, ond nid i ni! Rydym yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwahanol, o siarad mewn cynadleddau mawr i greu sesiynau pwrpasol ar gyfer uwch dimau. Rydym bob amser yn ceisio rhannu'r syniadau diweddaraf ynghylch arweinyddiaeth ac mae ein cyfres o ddsbarthiadau meistr a'n seminarau arbenigol wedi parhau i effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Trosolwg o'n cynulleidfa flynyddol yn ôl lefel swydd



Cynhadledd Gofal a Thrwsio

Gan gyd-fynd â thema'r digwyddiad, sef 'Cryfach gyda'n Gilydd', rhoddodd Jo Hicks gyflwyniad ar gydweithio i weithwyr proffesiynol uwch o'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r sector tai. Hefyd, cynhaliwyd gweithdy ar Feithrin Perthnasoedd Effeithiol a oedd yn ategu thema'r gynhadledd.



Rhaglen Rheolaeth Gyffredinol y GIG i Raddedigion

2014 i 2016

'Ffordd ddiddorol ac ysbrydoledig o feddwl am arweinyddiaeth, mae wedi gwneud i mi fyfyrio ar fy ngwerthoedd a fy nghymhellion er mwyn llywio sut y byddaf i'n ymgymryd â heriau yn y dyfodol.'

- Un o raddedigion 2016

Llwyddodd 14 o raddedigion, a gafodd eu recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored, i gwblhau'r rhaglen, a oedd yn cynnwys MBA mewn Rheolaeth Gofal Iechyd Proffesiynol gyda Phrifysgolion Glyndŵr ac Abertawe. Llwyddodd 93% i sicrhau swyddi rheoli yn y GIG.

Roedd yr adborth yn dangos bod yr holl gynadleddwyr yn fodlon, neu'n fwy na bodlon ag elfen Academi Wales y rhaglen i raddedigion.

2016 i 2018

Penodom 13 o raddedigion a chafodd pob un ohonynt wythnos gynefino gyda ni, a oedd yn cynnwys gweithgareddau ar lawr dosbarth; meithrin tîm a datblygiad personol.

Mae'r graddedigion i gyd wedi cael swyddi mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ledled Cymru ac maent wedi dechrau gradd MSc mewn Arwain, Rheoli ac Arloesi mewn Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe.

Dosbarth meistr

'Mae deall Cenhedlaeth y Mileniwm yn well yn caniatáu i mi eu galluogi a'u cefnogi nhw mewn modd adeiladol.'

- Cynadledwr, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban

Mae ein cyfres o ddosbarthiadau meistr yn rhoi cyfle i arweinwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus ddysgu'n uniongyrchol gan arbenigwyr ac arweinwyr syniadau blaenllaw yn eu meysydd.

- Gweithio gyda Cenhedlaeth y Mileniwm
- Sut y gall Cenhedlaeth y Mileniwm greu argraff yn y gwaith



Cyflwynodd Jenny Williams sesiynau rhyngweithiol a oedd yn canolbwyntio ar sut i ddeall a gweithio'n effeithiol gyda chyd-weithwyr o bob cenhedlaeth.

Imiwnedd i Newid

Roedd Tîm Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn rhan o'r rhaglen 'prawf cysyniad', sydd wedi'u chreu yn seiliedig ar ymchwil o Ysgol Fusnes Harvard sy'n canolbwyntio ar ddeall pam bod sefydliadau, timau ac unigolion yn wrthsafol i newid ac yn canolbwyntio ar nodi ymrwymïadau cystadleuol i newid ar lefel y bwrdd.



227, 383 munud o fideos wedi'u gwyllo ar ein sianel YouTube

Dau ar y Brig

Rydym wedi gweithio gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i archwilio:

- eu gwahanol rolau
- natur eu perthynas waith
- eu heffaith ar y sefydliad ehangach

Yn ystod y rhaglen, maent wedi mireinio eu gallu i gydweithio ar faterion pwysig yn y gwasanaeth ac wedi gwella perthnasoedd i gynyddu effeithiolrwydd y sefydliad.

Sgiliau Hwyluso

Rhodddwyd cwrs pwrpasol ar Sgiliau Hwyluso yng ngogledd Cymru i grŵp o gynadledwyr o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Civil Service Live

Roedd y digwyddiad hwn a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf yn rhoi cyfle i gynadledwyr ar draws y Gwasanaeth Sifil ddysgu gan arbenigwyr a rhannu eu profiadau.

Roedd gennym stondin a oedd yn hyrwyddo Fframwaith Ymddygiad a Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, ac fe wnaethom gynnal gweithdy ynghylch Gwytnwch Meddwl.




3534 o ddilynwyr



3278 o Danysgrifwyr i'r Bwletin Cyfleoedd

Cyfres o Raglenni Dogfen Dysgu



Eleni, rydym wedi dilyn taith tri chynadledwr yn ystod wythnos yr Ysgol Haf:

- Serena Jones, Coastal Housing Group
- Dr Pritpal Singh, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Kate Chatterjee Williams, Stonewall Cymru

Hydref i Ragfyr 2016



Trosolwg gan Jo

Rydym wrth ein bodd â'r teimlad hwnnw o 'fynd yn ôl i'r ysgol' ddechrau'r hydref, ac wrth i'r dyddiau fyrhau, roedd ein dysgwyr yn manteisio i'r eithaf ar bob diwrnod gyda'n cynadleddau undydd a oedd yn canolbwyntio ar weithio mewn modd proffesiynol. Fe wnaethom hefyd ddechrau edrych ymlaen a threulio amser yn cynllunio a chomisiynu rhaglenni newydd yn barod ar gyfer 2017.

Yn ystod yr hydref, daeth mwy na 3600 o arweinwyr i un o'n 79 o ddigwyddiadau, cyrsiau a sesiynau'r gynhadledd!



Cynhadledd Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

Creu arloesedd o gymhlethdod – nid beth ond sut wrth arloesi

'Yn ogystal â chwilio am berfformiadau gwael, mae gwelliant parhaus yn ymwneud â dysgu oddi wrth berfformiadau da.'

- Cynadleddwr, Gwasanaeth Tân De Cymru

Dosbarthiadau Meistr

Arweinyddiaeth ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol



Fe wnaeth yr Athro Sharon Turnbull rannu ei hymchwil i'r modd y gall doethinebau hynafol a brodorol fod yn gymorth i arweinwyr yn y byd sydd ohoni fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy a chyfrifol o feddwl a gweithredu.

Ymgysylltu – y niwrowyddoniaeth sydd wrth wraidd sefydliadau llwyddiannus



Cyflwynodd Amy Brann neges fod gan arweinwyr a'u sefydliadau lawer iawn o botensial a allai gael ei ddefnyddio'n well os ydynt yn deall sut i weithio gyda'u hymennydd yn optimaidd.

Llwyddodd y 5ed Gynhadledd AWCIC, a oedd yn cael ei chadeirio gan Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru, i ddod â thua 190 o gynadleddwyr ynghyd o fwy na 50 o sefydliadau.

Roedd siaradwyr gwadd byd-enwog yn ymdrin â meysydd pwnc a oedd yn procio'r meddwl, gan gynnwys Arweinyddiaeth Ymaddasol Gymhleth (Nick Obolensky), Ymholi Gwerthfawrogol a Gwelliant Parhaus yn Seiliedig ar Gryfderau (David Shaked), a chip rhyfeddol ar Oriel Tate (Vilma Nikolaidou).

Seminar arbenigol: Llywodraethu ym maes Gofal Iechyd

Roedd 56 o aelodau'r Bwrdd o bob cwr o'r GIG yng Nghymru yn bresennol yn y seminar arbenigol hon a oedd yn cael ei chynnal mewn partneriaeth â Chyddfederasiwn GIG Cymru.



Cynhadledd Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal

Arwain gyda Bwriad

"Ardderchog. Un o'r diwrnodau Datblygiad Proffesiynol Parhaus mwyaf perthnasol a chynhyrchiol (o ran fy amgylchiadau i) ers blyneddau lawer. Diolch yn fawr."

- Cynadleddwr, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Mae'r digwyddiad hwn, a oedd yn cael ei Gadeirio gan Sue Evans, Cyngor Gofal Cymru, wedi ymestyn ein Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol flynyddol i gynnwys y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Cafodd y gynhadledd ei chreu i ysbrydoli, i ddatblygu, i ymgysylltu ac i gefnogi'r 200 o arweinwyr a oedd yn bresennol.

Cafwyd cyflwyniadau gan siaradwyr amlwg ynghylch cydweithio, arwain gyda bwriad positif a chreu diwylliannau sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a pherfformiad uchel. Roedd y rhain yn cynnwys Chris Ham, The King's Fund, a'r Athro Sharon Turnbull, Canolfan Arweinyddiaeth Caerhifryn.

Rhwydwaith Coetsio Cymru

Rydym wedi ail-lansio'n rhwydwaith o goetswyr gwasanaethau cyhoeddus gyda chronfa ddata newydd y gellir ei chwilio ar-lein, fforwm a rhwydwaith cefnogi cyfoedion, a mynediad at adnoddau dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Penawdau

- 44 o aelodau cofrestredig yn darparu coetsio
- 25 o gyfranogwyr ar ein rhaglen 'Datblygu coetswyr ar y lefel uchaf'
- Mwy na 750 wedi edrych ar y gronfa ddata

Gwirfoddoli a chodi arian

Hanner Marathon Caerdydd

Roedd gennym ni dri rhedwr a wnaeth lwyddo i gwblhau'r ras mewn 2 awr 22 munud a chodi arian ar gyfer Shelter Cymru!

Glanhau Traethau Prydain Fawr

Fe wnaethom ymuno â digwyddiad lleol yn Nhraeth Coney ym Mhorthcawl, a chasglwyd 12 bag o sbwriel a oedd yn pwysu 24.2 Kg!



Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Dathlu 10 mlynedd

Mewn digwyddiad ar y cyd â Cymru o Blaid Affrica, dathlwyd 10 mlynedd ers sefydlu'r rhaglen ILO. Roedd clywed gan ein Prif Weinidog a dysgu am brofiadau, llwyddiant a chyflawniadau cyfranogwyr blaenorol yn brofiad arbennig.

Yn 2016, roedd 12 ymgeisydd newydd wedi ymgymryd â'r profiad arweinyddiaeth cynhwysfawr yn Affrica Is-Sahara. Mae'r rhaglen yn effeithio'n sylweddol ar y sefydliadau Affricanaidd rydyn ni'n gweithio gyda nhw ac ar unigolion pan fyddant yn dychwelyd i'w gweithle.

Mae 160 o arweinwyr o Gymru wedi rhannu 47,300 o oriau o arbenigedd â phartneriaid yn Affrica.



Ionawr i Fawrth 2017



Trosolwg gan Jo

Rydym yn croesawu mis Ionawr bob amser, ac wrth i 2017 wawrio, fe wnaethom ofyn i'n myfyrwyr fyfyrar eu cyflawniadau yn 2016 ac ystyried sut y byddant yn defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu yn y gwaith. Ac, er mwyn gwneud yn ogystal â dweud, fe wnaethom yr un fath yma yn Academi Wales. Drwy atgyfnerthu popeth rydym wedi'i ddysgu a rhagweld ein heriau yn y dyfodol, rydym wedi penderfynu ar ein thema a'n bwriad ar gyfer y 12 mis nesaf – sef 'Arwain drwy Ddewis'.

Dosbarth meistr

Adnoddau Ymarferol ar gyfer Grymuso Pobl – dull gweithredu ar sail asedau



Mae Paul Stepczak wedi cyflwyno sesiwn ryngweithiol a oedd wedi'i hanelu at bobl sy'n gweithio mewn sectorau sy'n darparu cymorth uniongyrchol i'r cyhoedd.

Roedd mwy na 300 o arweinwyr yn bresennol yn un o'n 11 o ddosbarthiadau meistr a'n seminarau arbenigol!

Seminar arbenigol:

Llywodraethu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Daeth 62 o aelodau'r Bwrdd i'r seminar arbenigol hwn o sefydliadau sydd â rôl allweddol mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddinasyddion yng Nghymru.



Ysgol Aeaf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017

Arwain drwy Ddewis: Dod yn arweinydd bwriadol ddisgybledig

'Mae hwn wedi bod yn brofiad ysbrydoledig – mae potensial y bobl yn yr ystafell hon i newid bywydau pobl yng Nghymru wedi cael ei amlygu mewn modd arbennig.'

- Cynadleddwr, Heddlu Gogledd Cymru

Cafodd y chweched Ysgol Aeaf ei chynnal yn Nant Gwrtheyrn yng ngogledd Cymru, ac fe gafodd ei hymestyn i fod yn ddigwyddiad pedwar diwrnod.

Roedd 46 o arweinwyr lefel uchel yn bresennol yn yr Ysgol Aeaf, mwy na'r flwyddyn flaenorol, i glywed siaradwyr enwog yn rhannu eu syniadau diweddaraf mewn perthynas ag arweinyddiaeth; gwneud penderfyniadau; ymddygiad dynol a chydweithio.

Roedd y dysgu'n cael ei atgyfnerthu mewn setiau dysgu gweithredol a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r dysgu mewn modd ymarferol. Roeddem hefyd yn annog cynadleddwyr i gyflawni ein haddewidion 'Arwain drwy Ddewis' a oedd yn cael eu rhannu ar Twitter.



Ffigurau pennawd (o'i gymharu â 2015-16)

Cyllideb  Gostyngiad o 11%

Cyfanswm y cynadleddwyr  Cynnydd o 9%

Cost y pen  Gostyngiad o 18%



Arwain yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru –

Fframwaith ymddygiad arwain

Rydym wedi creu'r fframwaith hwn i helpu arweinwyr a'u sefydliadau i ffynnu. Datblygwyd y fframwaith drwy ddefnyddio'r ymchwil academiaidd diweddaraf ar arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol ac adborth gan weithwyr o'r gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r fframwaith yn sail i'n gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth.

Gofod3

Rydym wedi cefnogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn eu digwyddiad 'Gofod3' cyntaf, a sefydlwyd fel gofod cenedlaethol i weithwyr o'r trydydd sector ddod at ei gilydd a pheri newid.

Rydym wedi cynnal gweithdy ar ddefnyddio seicoleg bositif yn y gweithle ac rydym wedi siarad â nifer o'r 600 o ymwelwyr a ddaeth i'n stondin arddangos.



Y Fforwm Nyrsys Ymgynghorol, Bydwragedd a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol [CNMHP]

Rydym wedi cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth y Fforwm CNMHP gyda dau weithdy undydd a oedd yn canolbwyntio ar rôl ymddiriedaeth a dylanwad mewn arweinyddiaeth a sut maent yn cyfrannu at ddiwylliant positif yn y gweithle.

Yn sgil ein hymdrechion codi arian, rhoddwyd cyfanswm o £1640 i Shelter Cymru!

Fe wnaethon ni helpu mwy na 10,000 o bobl i dyfu drwy ddysgu!